# Hysbysiad Preifatrwydd i Drydydd Partïon ac Ymwelwyr

## 1 Gwybodaeth Gyffredinol

Rydym yn ymrwymedig i warchod preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol.

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, rydym yn "rheolydd data". Mae hyn yn golygu ein bod yn cadw data personol amdanoch chi a'n bod yn gyfrifol am benderfynu sut rydym yn storio ac yn defnyddio'r wybodaeth bersonol honno.

Fel rheolydd data, mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ddarparu gwybodaeth benodol i unigolion rydym yn cadw, yn casglu, yn caffael, yn storio ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanynt. Mae'r wybodaeth honno wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon (ein "hysbysiad preifatrwydd").

Diben yr hysbysiad hwn yw hyrwyddo tryloywder o ran y defnydd o ddata personol, ac amlinellu sut y mae Prifysgol Abertawe'n casglu ac yn defnyddio data personol yn ystod ac ar ôl eich perthnasoedd gwaith neu ymweld â ni yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ("GDPR") a Deddf Diogelu Data 2018 ("DPA 2018").

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y ddogfen hon (ynghyd ag unrhyw hysbysiadau preifatrwydd eraill y gallwn eu darparu i chi ar adegau penodol), fel eich bod yn ymwybodol o sut a pham rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol.

## 2 Pa wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch chi?

Dyma enghreifftiau o ba ddata personol y gellir ei gasglu, ei storio a'i ddefnyddio:

- Manylion cyswllt personol megis enw, dyddiad geni, teitl, cyfeiriadau, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost personol
- Statws priodasol
- Rhyw
- Perthynas agosaf a manylion cyswllt mewn argyfwng
- Cofnodion cyflogaeth (gan gynnwys enw'r cyflogwr, teitl swydd ac oriau gwaith)
- Hen ffilmiau Camerâu Cylch Cyfyng a gwybodaeth arall a gesglir yn electronig megis cofnodion sganio/cardiau adnabod
- Gwybodaeth am eich defnydd o'n systemau gwybodaeth a chyfathrebu
- Ffotograffau
- Enw'r cwmni, rhif cofrestru'r cwmni a chyfeiriad cofrestredig
- Manylion y cerbyd gan gynnwys rhif cofrestru'r cerbyd

## 3 At ba ddibenion y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol a beth yw ein seiliau cyfreithiol dros wneud hynny?

Fel arfer caiff data personol trydydd partïon ac ymwelwyr ei gasglu drwy eu cyswllt yn y Brifysgol neu drwy broses cofrestru ar gyfer digwyddiad, yn uniongyrchol o wrthrychau'r data. Efallai y bydd gwybodaeth ychwanegol yn cael ei chasglu o sefydliadau trydydd parti gan gynnwys cyflogwyr trydydd parti cyfredol. Bydd y Brifysgol hefyd yn casglu data personol ychwanegol yn ystod y cyfnod y byddwch ar y safle yn y Brifysgol.

| Diben | Sail gyfreithlon |
|---|---|

# Hysbysiad Preifatrwydd i Drydydd Partïon ac Ymwelwyr

| | |
|---|---|
| Darparu gwasanaethau proffesiynol a meithrin perthnasoedd cleientiaid/cwsmeriaid | Yn angenrheidiol ar gyfer perfformiad contract / er mwyn cymryd camau ar gais gwrthrych y data cyn dod i gytundeb<br><br>Budd cyfreithlon y Brifysgol i ddarparu gwasanaeth proffesiynol i gleientiaid ac unigolion perthnasol |
| Sicrhau bod y Brifysgol, ei phobl a'i chyfleusterau'n ddiogel ac yn sicr | Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithlon |
| To support the NHS Wales Test, Trace Protect service in the event that the contact tracing process is initiated where it is in the public interest to ensure the safety of all of our staff, students and visitors on campus. | Yn yr achos hwn, y sail gyfreithiol y byddwn yn dibynnu arni i brosesu'ch gwybodaeth bersonol yw ei bod yn angenrheidiol i gyflawni tasg er budd y cyhoedd, neu wrth arfer awdurdod swyddogol a roddwyd i'r rheolydd / Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithlon |
| Eich cofrestru chi fel ymwelydd â'r Brifysgol a rhoi cardiau adnabod i'r sawl sy'n ymweld â'r campws | Budd cyfreithlon cynnal diogelwch wrth alluogi ymwelwyr i fynd i fannau yn y Brifysgol |
| Monitro eich defnydd o'n systemau gwybodaeth a chyfathrebu i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau TG y Brifysgol, lle bo'n berthnasol | Budd cyfreithlon o ran sicrhau bod systemau TG y Brifysgol yn cael eu defnyddio'n gywir a bod y rhwydwaith yn ddiogel |
| Rhoi hawlenni parcio i ymwelwyr | Budd cyfreithlon y Brifysgol i ddarparu gwasanaeth proffesiynol i gleientiaid ac unigolion perthnasol |
| Rheoli busnes a chynllunio, gan gynnwys cyfrifyddu ac archwilio | Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithlon a/neu fudd cyfreithlon o ran rheoli busnes y Brifysgol yn gywir |
| Atal twyll | Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithlon |
| At ddibenion marchnata uniongyrchol | Budd cyfreithlon y Brifysgol i gyfathrebu gwybodaeth berthnasol i chi (sylwer y bydd y Brifysgol yn cyfathrebu â chi'n electronig os oes gennym ganiatâd penodol i wneud hynny yn unol â Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003 yn unig) |

**Sail gyfreithlon dros brosesu eich data personol o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018**

Dim ond pan fydd y gyfraith yn caniatáu y bydd data personol yn cael ei brosesu. Caiff y rhan fwyaf o ddata personol cyffredinol ei brosesu yn yr amgylchiadau canlynol:

- Lle'r ydych wedi rhoi eich cydsyniad i ni
- Er mwyn bodloni rhwymedigaethau Prifysgol Abertawe i chi fel rhan o'ch contract cyflogaeth

- Lle bo angen i Brifysgol Abertawe gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithlon (er enghraifft, nodi neu atal trais neu reoliadau ariannol)
- Lle bo'n angenrheidiol er budd cyfreithlon Prifysgol Abertawe (neu rai trydydd parti) ac nid yw eich buddiannau a'ch hawliau sylfaenol yn anwybyddu'r buddiannau hynny
- I ddiogelu hawliau hanfodol gwrthrych y data neu unigolyn arall (er enghraifft, yn achos argyfwng meddygol)
- Er mwyn gwneud tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd

**Data categori arbennig**

Mae'n bosibl y byddwn yn prosesu data categori arbennig yn yr amgylchiadau canlynol yn unig, lle, yn ogystal â sail gyfreithlon dros brosesu, ceir un o'r seiliau canlynol:

- Cydsyniad penodol – lle rydych wedi rhoi cydsyniad penodol i ni.
- Rhwymedigaeth gyfreithlon sy'n ymwneud â chyflogaeth – mae'r prosesu'n angenrheidiol oherwydd rhwymedigaeth gyfreithlon ym maes cyflogaeth a chyfraith diogelwch cymdeithasol neu ar gyfer cytundeb ar y cyd.
- Buddiannau hanfodol – mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau hanfodol gwrthrych y data neu rai unigolyn naturiol arall lle nad yw gwrthrych y data, am resymau corfforol neu feddyliol, yn gallu rhoi cydsyniad. Mae hyn fel arfer yn gyfyngedig i'r prosesu angenrheidiol ar gyfer argyfyngau meddygol.
- Cyrff nid-er-elw – prosesir yn ystod gweithgareddau cyfreithlon corff nid-er-elw, ac mae'n ymwneud ag aelodau neu unigolion cysylltiedig, ac ni chaiff y data personol ei ddatgelu y tu hwnt i'r corff hwnnw heb gydsyniad.
- Gwybodaeth gyhoeddus – mae'r prosesu'n ymwneud â data personol a wneir yn amlwg yn gyhoeddus gan wrthrych y data.
- Hawliadau cyfreithiol – mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol neu pan fydd llysoedd yn gweithredu yn eu rhinwedd farnwrol.
- Budd sylweddol i'r cyhoedd – mae'r prosesu'n angenrheidiol am resymau budd sylweddol i'r cyhoedd ar sail Undeb neu gyfraith aelod-wladwriaeth.
- Gofal iechyd – mae'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion gofal iechyd ac yn amodol ar drefniadau diogelu addas.
- Iechyd y cyhoedd – mae'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion iechyd y cyhoedd ac ar sail Undeb neu gyfraith aelod-wladwriaeth.
- Archif – mae'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion archifo, dibenion ymchwil gwyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol ac ar sail Undeb neu gyfraith aelod-wladwriaeth. Gall aelod-wladwriaethau gyflwyno amodau ychwanegol mewn perthynas â data iechyd, genetig neu fiofetrig.

Mewn rhai amgylchiadau prin, gall Prifysgol Abertawe gysylltu â chi i gael eich cydsyniad ysgrifenedig er mwyn prosesu data sy'n arbennig o sensitif. Mewn achosion o'r fath, bydd y Brifysgol yn rhoi manylion llawn am yr wybodaeth sydd ei hangen a'r rheswm y mae ei hangen, fel y gallwch ystyried p'un a ydych yn dymuno rhoi eich cydsyniad neu beidio.

Lle'r ydych wedi rhoi eich cydsyniad i gasglu, prosesu a throsglwyddo eich data personol at ddiben penodol o bosibl, mae gennych yr hawl i dynnu eich cydsyniad yn ôl ar gyfer hynny ar unrhyw adeg. Unwaith y bydd y Brifysgol wedi cael gwybod eich bod wedi tynnu eich cydsyniad yn ôl, ni fyddwn mwyach yn prosesu eich data at y diben hwnnw neu'r dibenion rydych wedi cytuno iddynt yn wreiddiol, oni bai fod gennym sail gyfreithlon arall dros wneud hynny yn ôl y gyfraith. Os dyma'r achos, byddwn yn rhoi gwybod i chi am y sail gyfreithlon hon.

# Hysbysiad Preifatrwydd i Drydydd Partïon ac Ymwelwyr

Bydd Prifysgol Abertawe'n defnyddio data personol at y dibenion y cafodd ei gasglu ar ei gyfer yn unig oni bai y caiff ei ystyried yn rhesymol bod ei angen at ddiben arall, a bod y rheswm yn cyd-fynd â'r diben gwreiddiol. Os oes angen i'r Brifysgol ddefnyddio eich data personol at ddiben nad yw'n gysylltiedig, bydd yn rhoi gwybod i chi ac yn esbonio'r sail gyfreithlon sy'n caniatáu iddi wneud hynny. Gall y Brifysgol brosesu eich data personol heb i chi wybod neu heb i chi roi eich cydsyniad, yn unol â'r polisi hwn a'r weithdrefn hon, lle bo'r gyfraith yn caniatáu hynny.

## 7 Â phwy rydym yn rhannu'ch gwybodaeth?

Gall Prifysgol Abertawe rannu eich data personol gyda thrydydd partïon lle bo'n ofynnol iddi wneud hynny yn ôl y gyfraith, lle bo'n angenrheidiol er mwyn gweinyddu'r berthynas waith gyda chi neu lle bo budd cyfreithlon arall dros wneud hynny gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, benodiadau ar y cyd â sefydliadau arall.

## 8 Trosglwyddo'ch Gwybodaeth Dramor

Ni fyddwn yn trosglwyddo unrhyw ran o'ch gwybodaeth y tu allan i'r UE fel arfer. Caiff unrhyw drosglwyddo ei wneud yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

## 9 Am faint o amser rydym yn cadw'ch gwybodaeth?

I sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol o ran diogelu data a phreifatrwydd, ni fyddwn yn cadw'ch gwybodaeth ond am gyfnod sy'n angenrheidiol at y dibenion a fu'n sail ei chasglu yn y lle cyntaf.

Wrth benderfynu ar y cyfnod perthnasol i gadw data personol, rydym yn ystyried hyd a lled, natur a sensitifrwydd y data personol, y risg o niwed pe bai'ch data personol yn cael ei ddefnyddio neu ei ddatgelu heb awdurdod, dibenion prosesu'ch data personol ac a fyddai modd i ni gyflawni'r dibenion hynny drwy ddulliau eraill, a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Bydd data personol a gasglwyd yn benodol at ddiben Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru yn cael ei gadw am 21 niwrnod o ddyddiad pob ymweliad gwahanol a wnaed.

Gweler ein polisi/amserlen cadw yn [https://www.swansea.ac.uk/about-us/compliance/records-management/] i gael rhagor o fanylion

## 10 Hawliau unigolyn

Mae deddfwriaeth diogelu data'n darparu nifer o hawliau gwahanol i unigolion mewn perthynas â'u data. Rhestrir y rhain isod ac maent yn berthnasol i amgylchiadau penodol:

- **Cais am fynediad** i'ch gwybodaeth bersonol (sy'n cael ei adnabod yn gyffredin fel 'cais am fynediad gan wrthrych data'). Mae hyn yn rhoi hawl i chi dderbyn copi o'r wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdanoch chi a gwirio ein bod yn ei phrosesu'n gyfreithlon.

- **Cais i gywiro'r** wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdanoch chi. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni gywiro unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch chi.

- **Cais i ddileu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu dynnu gwybodaeth bersonol lle nad oes gennym reswm da dros barhau i'w phrosesu. Mae gennych hawl hefyd i ofyn i ni ddileu neu dynnu'ch gwybodaeth bersonol lle'r ydych wedi arfer eich hawl i wrthwynebu i ni ei phrosesu (gweler isod).

- **Gwrthwynebu i brosesu** eich gwybodaeth bersonol, lle'r ydym yn dibynnu ar fuddiant dilys (neu fuddiannau trydydd parti) ac mae rhywbeth yn eich sefyllfa benodol sy'n golygu eich bod yn gwrthwynebu i brosesu ar y sail hon. Mae gennych hawl i wrthwynebu hefyd lle'r ydym yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata uniongyrchol.

- **Cais i gyfyngu ar brosesu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni atal prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, er enghraifft, os hoffech i ni gadarnhau ei chywirdeb neu'r rheswm dros ei phrosesu.

- **Cais i drosglwyddo** eich gwybodaeth bersonol ar ffurf gludadwy. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosib y bydd gennych hawl i ofyn i ni ddarparu copi electronig o'ch gwybodaeth bersonol, naill ai at eich defnydd personol, neu i'w rhannu â sefydliad arall. Lle bo'r hawl hon yn berthnasol, gallwch ofyn i ni drosglwyddo'ch data personol yn uniongyrchol i'r parti arall os yw hyn yn ymarferol.

Os hoffech adolygu, gwirio, cywiro neu ofyn i ni ddileu'ch gwybodaeth bersonol, gwrthwynebu i ni brosesu'ch data personol neu ofyn i ni drosglwyddo copi o'ch gwybodaeth bersonol i barti arall, cysylltwch â:

Mrs Bev Buckley
Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth a Swyddog Diogelu Data
Swyddfa'r Is-ganghellor
Prifysgol Abertawe
Parc Singleton
Abertawe
SA2 8PP
E-bost: dataprotection@abertawe.ac.uk

**Ni chodir ffi fel arfer**

Ni fydd rhaid i chi dalu ffi i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol (neu i arfer unrhyw un o'r hawliau eraill). Fodd bynnag, gallwn godi ffi resymol os yw'n amlwg bod eich cais am fynediad yn ddi-sail neu'n eithafol. Neu gallwn wrthod eich cais mewn amgylchiadau o'r fath.

**Yr hyn y gallwn ofyn i chi ei ddarparu**

Gallwn ofyn i chi ddarparu gwybodaeth benodol i'n helpu i gadarnhau pwy ydych chi ac i sicrhau bod gennych hawl i gael mynediad i'r wybodaeth (neu i arfer unrhyw un o'ch hawliau eraill). Mae hyn yn fesur diogelwch priodol arall i sicrhau nad yw gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i unrhyw un nad oes ganddo hawl i'w derbyn.

## 11 Eich gallu i dynnu cydsyniad yn ôl

Lle bo'ch data personol yn cael ei brosesu ar sail eich cydsyniad neu'ch cydsyniad penodol, mae gennych hawl i dynnu'ch cydsyniad i brosesu yn ôl unrhyw bryd. Gallwch wneud hyn drwy e-bostio'r Swyddog Diogelu Data yn dataprotection@abertawe.ac.uk. Ni fydd y ffaith eich bod yn tynnu

cydsyniad yn ôl yn effeithio ar gyfreithlondeb unrhyw weithgarwch i brosesu'ch data personol ar sail cydsyniad a wnaed cyn i chi ein hysbysu eich bod am dynnu'ch cydsyniad yn ôl.

## 12 Canlyniadau peidio â darparu'r data pan fo'r cais yn seiliedig ar ofyniad statudol neu o ran contract

Ni fydd y Brifysgol yn gallu eich cofrestru'n aelod staff os ydych yn gwrthod darparu'r wybodaeth angenrheidiol pan fydd y cais yn seiliedig ar ofyniad statudol neu o ran contract.

## 13 Cywirdeb

Os yw eich manylion personol yn newid wrth i chi ymwneud â'r Brifysgol, dylech gysylltu ag aelod perthnasol o staff i roi gwybod iddo a rhoi'r wybodaeth gywir a diweddaraf iddo.

## 14 Newidiadau i'r polisi preifatrwydd hwn

Rydym yn adolygu'r ffyrdd rydym yn defnyddio eich gwybodaeth yn rheolaidd. Wrth wneud hyn, gallwn newid y math o wybodaeth rydym yn ei chasglu, sut rydym yn ei storio, â phwy rydym yn ei rhannu a sut rydym yn gweithredu arni.

O ganlyniad, bydd angen i ni newid y polisi preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd i sicrhau ei fod yn gywir ac yn gyfredol.

Byddwn yn adolygu'r polisi hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gywir ac yn gyfredol. Diweddarwyd y polisi hwn ym 13/08/2020.

## 15 Amdanom Ni

Prifysgol Abertawe, sefydliad a sefydlwyd gan Siarter Frenhinol o Barc Singleton, Abertawe SA2 8PP

Ni yw rheolydd data'r wybodaeth rydych yn ei darparu i ni. Mae'r term 'rheolydd data' yn ymadrodd cyfreithiol a ddefnyddir i ddisgrifio'r unigolyn neu'r endid sy'n rheoli'r ffyrdd y caiff gwybodaeth ei defnyddio a'i phrosesu.

## 16 Ble i gael mwy o wybodaeth am eich hawliau neu sut i gwyno

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n rheoleiddio materion diogelu data a phreifatrwydd yn y DU. Darperir llawer o wybodaeth ar eu gwefan ac maent yn sicrhau bod manylion cofrestredig pob rheolydd data fel ni ar gael i'r cyhoedd. Gallwch eu gweld yma http://www.ico.gov.uk/for_the_public.aspx.

Gallwch gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth unrhyw adeg am y ffordd rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth. Fodd bynnag, ein gobaith yw y byddech yn ystyried dod atom ni yn y lle cyntaf i ddatrys unrhyw broblem neu gŵyn sydd gennych. Byddwn bob amser yn gwneud ein gorau glas i ddatrys unrhyw broblemau a allai fod gennych.

## 17 Cysylltu â ni

Mae croeso i chi gysylltu â ni unrhyw bryd i drafod eich gwybodaeth.

# Hysbysiad Preifatrwydd i Drydydd Partïon ac Ymwelwyr

Rydym wedi penodi Swyddog Diogelu Data i oruchwylio cydymffurfiaeth â'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn, neu am sut rydym yn trin eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data:-

Mrs Bev Buckley
Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth a Swyddog Diogelu Data
Swyddfa'r Is-ganghellor
Prifysgol Abertawe
Parc Singleton
Abertawe
SA2 8PP
E-bost: dataprotection@abertawe.ac.uk